

Bwrdd Gwasanaeth Lleol Blaenau Gwent


Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn

2015-2017



BWRDD GWASANAETH LLEOL
Blaenau Gwent
LOCAL SERVICE BOARD

“*Blaenau Gwent - lle gwell i fyw
gweithio ac ymweld ag ef*”



Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent

DRAFFT YMGYNGHORI:

Gweithrediad Lleol

**Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng
Nghymru**

2015 i 2017

Gwneud Cymru yn lle gwych i dyfu'n hen ynddo



BWRDD GWASANAETH LLEOL
Blaenau Gwent
LOCAL SERVICE BOARD

Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent

DRAFFT YMGYNGHORI:

Gweithrediad Lleol y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

2013 i 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn <http://www.blaenau-gwent.gov.uk/community/14723.asp>.

Os hoffech gael y ddogfen yma mewn fformat arall cysylltwch ag:

Adran Polisi, Partneriaethau ac Ymgysylltu

Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Swyddfeydd Bwrdeisiol

Canolfan Ddinesig

Glynebwy

Blaenau Gwent

NP23 6XB

Ffôn: 01495 355935

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk

Beth sydd yn y ddogfen yma?



Islaw mae trosolwg o gynnwys y ddogfen hon, gyda rhifau'r tudalennau perthnasol.

Tudalen(nau)

Croeso	1
Cyflwyniad a Chyd-destun	2-8
Blaenau Gwent yn Heneiddio	2
Pobl Blaenau Gwent yn Byw'n Hirach	3
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru	4
Heneiddio'n Dda yng Nghymru	5
Cymunedau Ystyriol o ran Oedran yng Nghymru	7
Gweithredu ym Mlaenau Gwent	9-13
Gweithredu Lleol ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent	9
Rôl Rhwydwaith Blaenau Gwent	12
Trefniadau ar gyfer y Rhwydwaith 50+ ar gyfer 2015/16	13
Cynllun Cyflenwi 2015/16	14-30
Gwybodaeth Gefnogi	31-33

Croeso

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno cynllun Blaenau Gwent sy'n amlinellu gweithrediad lleol Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023.

Fel ardal bu gan Blaenau Gwent ymrwymiad i'r agenda cenedlaethol yma dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r cynllun cyflenwi yn parhau'r ymrwymiad drwy amlinellu sut y byddwn yn rhoi help ymarferol ym Mlaenau Gwent i gyflawni'r agenda cenedlaethol o *Gwneud Cymru yn lle gwych i dyfu'n hen ynddo*.

Sylweddolwn fod gennym 'boblogaeth heneiddiol' ym Mlaenau Gwent, sy'n dueddiad cyffredin a welir ym mhob rhan o Brydain. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei gydnabod a'i groesawu. Mae angen i ni edrych i ddathlu a manteisio i'r cyfleoedd i'r eithaf a gyflwynir gan boblogaeth heneiddiol, tra'n cydweithio i drafod yr heriau.

Rwy'n credu'n gryf fod pobl hŷn yn ased sylweddol ac y dylem sicrhau fod pobl hŷn yn chwarae rhan weithgar yn ein cymunedau lleol.

Rwy'n credu hefyd fod angen i ni gefnogi pobl hŷn sy'n wynebu heriau heneiddio drwy gydweithio i gynnig gwasanaethau cyhoeddus ardderchog sy'n cyflawni eu hanghenion hwy a'u teuluoedd.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu yn dod ar adeg pan fo gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn mynd drwy newidiadau sylweddol, gan fod yr adnoddau sydd gennym i'w gwario yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn yn rhoi mwy fyth o ffocws ar yr angen i bob partner gydweitho i wneud yn sicr y gallwn gyflawni ein nod.

Cynghorydd Haydn Trollope
Hyrwyddwr Pobl Hŷn Blaenau Gwent
Cadeirydd Rhwydwaith Blaenau Gwent 50+


Cyflwyniad

Blaenau Gwent yn Heneiddio

Fel y rhan fwyaf o leoedd ym Mhrydain, mae gan Blaenau Gwent broffil poblogaeth sy'n heneiddio. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod llai o fabanod yn cael eu geni nag erioed a bod y bobl hynny'n byw yn hirach.

Ym Mlaenau Gwent, mae nifer y bobl 50 oed a throsodd wedi cynyddu o ran cymesuredd a thermau real dros yr 20 mlynedd ddiwethaf - tueddiad a welwyd ar draws Cymru yn gyffredinol. Mae Ffigur 1 islaw'n amlinellu'r patrwm yn defnyddio gwybodaeth y Cyfrifiad a hefyd y rhagamcan o nifer pobl hŷn ar gyfer 2021 a 2031 yn defnyddio rhagamcaniadau poblogaeth lleol a ddatblygwyd yn genedlaethol.

Ffigur 1: Poblogaeth Blaenau Gwent - Pob Person 50 oed a throsodd



Mae cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent ers 1991 wedi gostwng gan 3.4% (neu 2,437 o bobl) o 72,251 i 69,814 yn 2011.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod yma cynyddodd nifer y bobl 50 oed a throsodd sy'n byw ym Mlaenau Gwent gan 6.8% (neu 1,751 i bobl), yn groes i'r tueddiad cyffredinol.

Rhagwelir hefyd y bydd y tueddiad yma'n parhau ar lefel uwch dros y 20 mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y boblogaeth gyffredinol yn gostwng gan 4.3%. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd nifer y bobl 50 oed a throsodd sy'n byw ym Mlaenau Gwent yn cynyddu i 28,730, cynnydd o 12%. Rhagwelir y bydd pobl 50 oed a throsodd mewn 20 mlynedd yn ffurfio 42% o gyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent.

Pobl Blaenau Gwent yn byw'n hirach

Bu cynnydd sylweddol yn nisgwyliad oes cyfartalog person sy'n byw ym Mlaenau Gwent dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae Ffigur 2 islaw'n dangos disgwyliad oes cyfartalog dynnon a menywod dros y 20 mlynedd ddiwethaf.

Ffigur 2: Disgwyliad Oes Blaenau Gwent 1991 i 2011

1991	71.9 mlynedd Disgwyliad oes dynion	78.2 mlynedd Disgwyliad oes menywod
2001	73.6 mlynedd Disgwyliad oes dynion	78.4 mlynedd Disgwyliad oes menywod
2011	75.7 mlynedd Disgwyliad oes dynion	79.9 mlynedd Disgwyliad oes menywod

Fel y gwelir, mae disgwyliad oes wedi gwella ar gyfer dynion a menywod ers 1991. Gwelwyd y gwelliant amlycaf ar gyfer dynion y mae eu disgwyliad oes cyfartalog wedi cynyddu gan 3.8 mlynedd (cynnydd o 1.7 mlynedd ar gyfer menywod).

Hyd yn oed wedyn, mae'n rhaid nodi er bod disgwyliad oes cyfartalog wedi cynyddu ym Mlaenau Gwent, mae'r ardal yn dal i weld disgwyliad oes isaf mewn unrhyw ardal yng Nghymru yn 2011 ar gyfer dynion a menywod. Mae'r

ddau'n sylweddol is na chyfartaledd cyffredinol Cymru o 78.2 mlynedd ar gyfer dynion a 82.2 mlynedd ar gyfer menywod.

Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

Yn 2003 lansiodd Llywodraeth Cymru y strategaeth gyntaf ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Roedd hyn yn torri tir newydd a chafodd gydnabyddiaeth eang. Gwnaed llawer ers hynny i wella bywydau pobl hŷn, yn cynnwys ail gam y Strategaeth rhwng 2008 a 2013.

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y drydedd strategaeth genedlaethol ar gyfer pobl hŷn i gynnwys cyfnod deng mlynedd (2013 i 2023).



Mae'r strategaeth bwysig hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru: *"bod pobl yng Nghymru yn teimlo yn cael eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, waeth beth fo'u hoedran"*

a: *"bod gan bob person hŷn yng Nghymru yr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol sydd eu hangenn arnynt i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a wynebant"*.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu tair her ar gyfer y deng mlynedd nesaf yng Nghymru:

1. Creu Cymru lle mae **cyfranogiad llawn** o fewn cyrraedd pob person hŷn a lle mae ei gyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi;
2. Datblygu **cymunedau sy'n ystyriol o ran oedran** gan sicrhau fod gan bobl hŷn yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i fyw;
3. Sicrhau bod **enedlaethau o bobl hŷn** yn y dyfodol yn barod ar gyfer cyfnod hwyrach yn eu bywydau drwy eu hannog i gydnabod y newidiadau a'r gofynion y gallant eu hwynebu a pharatoi ar gyfer hynny ymlaen llaw.

Ffocws y Strategaeth yw cysyniad eang llesiant a chanolbwyntio ar adeiladu ansawdd bywyd cymdeithasol, ariannol ac amgylcheddol da, gan fynd tu hwnt i agenda iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol pobl hŷn.

Mae 13 canlyniad o fewn y Strategaeth i'w cyflawni erbyn 2013. Caiff y rhain eu rhestru dan 3 prif faes ansawdd bywyd:

Cymdeithasol: Cyfranogiad cymdeithasol, amrywiaeth, cael gafael ar wasanaethau, dysgu a gweithgareddau a heneiddio'n iach.

Amgylcheddol: Mannau a rennir, byw yn y gymuned, trafnidiaeth a thai.

Ariannol: Pensiynau ac incwm arall, ynni, cynhwysiant ariannol a chyflogaeth.

Mae'r strategaeth hefyd yn tanlinellu'r angen am weithio partneriaeth i gysylltu agendâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac integreiddio polisiau yn neilltuol yn ymwneud â'r amgylchedd, tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Cefnogir y strategaeth gan gynllun cyflenwi sy'n amlinellu gweithgaredd cenedlaethol lefel uchel y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a amlinellir islaw.

Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Yn cyfrannu at ac yn ategu Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, y rhaglen gyntaf o'r fath ym Mhrydain.

Cafodd y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Tachwedd 2012 fel partneriaeth pum mlynedd llywodraeth genedlaethol a lleol a'r prif asiantaethau sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Caiff y rhaglen ei chynnal a'i chadeirio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Mae'r rhaglen hefyd yn rhan o Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar Heneiddio Egnïol ac Iach (EIP-AHA), a chafodd y statws Safle Cyfeirnod uchaf o 3* gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Gorffennaf 2013. Ers hynny

cafodd y rhaglen hefyd ei chynnwys fel rhan o'r Rhwydwaith Cydweithredu Safleoedd Cyfeirnod, rhwydwaith o dros 20 rhanbarth ac aelod wladwriaethau ar draws yr Undeb Ewropeaidd i gydweithredu a chyfnewid arfer gorau ac arloesedd ym maes heneiddio egniol ac iach.

Prif nod y rhaglen yw sicrhau fod llesiant pobl 50 oed a hŷn yng Nghymru yn gwella, sy'n alinio gyda Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2013 i 2013.

Mae gan y rhaglen hefyd ddolen glir i nifer o flaenoriaethau a chynlluniau polisi cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:

- Gostwng anghydraddoldeb a hyrwyddo cynhwysiant;
- Atal llesgedd a dibyniaeth;
- Gostwng nifer y bobl hŷn sydd angen mynediad i wasanaethau a chefnogaeth mewn argyfwng;
- Hyrwyddo hunan-gyfrifoldeb dros weithredu i gynnal iechyd unigolion eu hunain;
- Cefnogi cyflogwyr ar draws pob sector i gadw arbenigedd a gwybodaeth; a
- Gostwng y gwahaniaethu sy'n wynebu pobl hŷn a grwpiau neilltuol o bobl hŷn.

Mae'r rhaglen a'i phartneriaid hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol at heneiddio a manteision cymdeithas heneiddiol a sicrhau fod gan bobl hŷn lais cryf a gaiff ei glywed ac yr ymatebir iddo.

Mae gan y rhaglen hon bum maes ffocws dechreuol:

1. Cymunedau ystyriol o ran oedran
2. Cymunedau cefnogol i dementia
3. Atal codymau
4. Cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a sgiliau newydd
5. Unigrwydd ac arwahanrwydd

Mae gan bob un o'r 5 maes arbenigydd arweiniol penodol a grŵp cynghori fydd yn helpu i ddynodi a hyrwyddo gweithredu i fod yn sylfaen a chyflawni ei nodau a'i flaenoriaethau yn ogystal â chynllun gweithredu manwl.

Caiff pob maes ffocws ei gefnogi gan rwydwaith thematig, sy'n cynnwys unigolion lleol, grwpiau ac asiantaethau sy'n codi ymwybyddiaeth a gweithredu ar lefel leol drwy harneisio a lledaenu arfer gorau ac arloesedd, rhannu syniadau, prosiectau, offer ac adnoddau i roi gwell cefnogaeth i ymestyn newid effeithlon ar draws Cymru.

Cafodd rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ei lansio'n ffurfiol gan Brif Weinidog Cymru ar 22 Hydref 2014, ac yn 2014 ymrwymodd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i egwyddorion Datganiad Dilyn ar Gymunedau Ystyriol o ran Oedran.

Cymunedau ystyriol o ran oedran yng Nghymru

Mae cynllun Cymunedau Ystyriol o ran Oedran yng Nghymru yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

Fel rhan o'i bartneriaeth gyda rhaglen genedlaethol Heneiddio'n Dda yng Nghymru, yn nechrau 2013 hwylusodd 'Cenedlaethau Cytûn - Cymru' gyfle unigryw i gynghorau gymryd rhan mewn rhaglen arddull dysgu gweithredu i hyrwyddo dulliau lleol i greu amgylcheddau a chymunedau ystyriol o ran oedran. Cymerodd ardaloedd awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Thorfaen ran yn y cynllun.

Gan weithio mewn grwpiau cymheiriaid awdurdodau lleol, gyda thua 10-15 yn cymryd rhan, cynigiodd y rhaglen dysgu gweithredu gyfleoedd i:-

- Datblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn mae cymunedau ystyriol o ran oedran yn ei olygu yn y cyd-destun lleol
- Rhannu gwybodaeth a sgiliau i gefnogi dull gweithredu lleol ystyriol o ran oedran
- Gweithio gyda chydweithwyr i ddynodi themâu a blaenoriaethau gweithredu
- Herio ac ymchwilio materion mewn amgylchedd cefnogol ac ymddiriedgar

- Cymryd perchnogaeth o gamau unigol a chamau a gaiff eu rhannu
- Dynodi materion/heriau blaenoriaeth ar gyfer cydweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol
- Bod yn rhan o grŵp a allai fod yn gynaliadwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth a gweithredu ar gyfer gwneud lleoedd gwell i heneiddio ynddynt.

Datblygwyd y rhaglen ar yr egwyddor nad oedd yn dweud sut i ddatrys materion ond yn hwyluso cefnogaeth a gwybodaeth i alluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i feddwl am a dynodi heriau, blaenoriaethau a chamau gweithredu sy'n gymesur gyda fframweithiau a blaenoriaethau polisi cenedlaethol a lleol.

Yn bennaf oll, anelai'r rhaglen i ddefnyddio sgiliau unigol a chyfunol y ddau grŵp (Blaenau Gwent a Thorfaen) i hwyluso paratoi am greadigrwydd a momentwm ar gyfer cyfleoedd i hybu dulliau gweithredu ystyriol o ran oedran.

Mewn ymgynghoriad gydag arweinwyr rhaglen ystyriol o ran oedran Torfaen a Blaenau Gwent, enwebwyd unigolion i fynychu yn seiliedig ar eu gallu i ddylanwadu ar ymgysylltiad eu cyngor eu hunain a hefyd sector ehangach. Dynododd y ddau arweinydd nifer o unigolion allweddol o sefydliadau partner i hwyluso cydweithredu ehangach. Fodd bynnag, cydnabuwyd ar y dechrau cyntaf fod y rhaglen yn bennaf ar gyfer pob cyngor gyda chyfraniadau ehangach i'w ceisio mewn ymateb i ganlyniadau'r rhaglen.

Arweiniodd y cynllun at:

- Dynodi a/neu gadarnhau blaenoriaethau/heriau neilltuol ystyriol o ran oedran ar gyfer ardaloedd gwahanol Blaenau Gwent/Torfaen;
- Ymrwymadau ar gyfer gweithredu unigol ac ar y cyd (a gaiff ei olrhain fel rhan o'r cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig gyda'r ddogfen yma); a
- Dynodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws ffiniau.

Gweithredu ym Mlaenau Gwent

Gweithredu lleol ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent

Mae gan gynghorau gyfrifoldeb arweiniol dros symud ymlaen gyda gweithredu lleol y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn gan weithio gyda sefydliadau partner sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol.

Y trefniant o fewn Blaenau Gwent, ar gyfer 2 cam cyntaf y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (2003 i 2008 a 2008 i 2013) oedd bod y Rhwydwaith 50+ lleol yn datblygu a monitro partneriaeth a chynllun gweithredu blynyddol a rhoi adroddiad ar hynny drwy'r Bartneriaeth Dyfodol Iachach.

Cafodd pob cynllun lleol ei lunio drwy ymgyfraniad pobl hŷn yn byw ym Mlaenau Gwent. Roedd gan Grŵp Cyfeirio Blaenau Gwent 50+ rôl hollbwysig yn hyn gan eu bod yn cymryd rhan i gynrychioli barn pobl 50 oed a throsodd mor deg ag sydd modd.

Fel y datblygwyd y trydydd cam yn genedlaethol (2012 i 2014), bu nifer o newidiadau polisi cenedlaethol sylweddol yn ymwneud â gweithio partneriaeth a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus. Bu symleiddio trefniadau gweithio partneriaeth i sicrhau fod sefydliadau partner mewn ardal yn cydweithio'n nes i wella llesiant yn ffocws i'r newidiadau hyn.

Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddwyd **Cydamcanu, Cydymdrechu** gan Lywodraeth Cymru, sef canllawiau statudol ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau. Ffocws hyn oedd cynhyrchu trefniadau partneriaeth symlach a llunio Cynllun Integredig Sengl i gyflawni dyletswyddau statudol yng nghyswllt datblygu cynlluniau a strategaethau sydd eu hangen dan ddeddfwriaeth allweddol.

Fel ymateb i hyn bu newidiadau sylweddol mewn trefniadau partneriaeth ym Mlaenau Gwent a chynhyrchwyd *Gwneud Gwahaniaeth*, Cynllun Integredig Sengl Blaenau Gwent 2013-2017.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar 5 thema gyda 18 blaenoriaeth oddi mewn iddynt i weithio tuag atynt yn y cyfnod 4 blynedd. Ni fwriedir i'r themâu gynnwys holl gyfrifoldebau'r partneriaid ym Mlaenau Gwent.

Sylweddolir fod llawer o'r materion sy'n wynebu'r ardal yn gymhleth, heb unrhyw un ddatrysiad na chorff unigol yn gallu eu datrys ar eu pen eu hunain. Drwy gymryd dull gweithredu mewn thema, mae'r ddogfen yma'n ein helpu i wneud synnwyr o sut mae'r pethau sy'n bwysig i Flaenau Gwent yn ffitio ynghyd mewn ffordd ddealladwy.

Y pum thema a'u blaenoriaethau yw:

Dysgu: Blynyddoedd Cynnar, Cyrhaeddiad Ysgol, Addysg Oedolion

Teg a Diogel: Troseddu, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cam-drin Domestig, Camddefnyddio Sylweddau, Cydlyniaeth ac Ymgysylltu

Llewyrchus: Cyflogaeth, Pwysau Ariannol

Iach: Ymddygiad a Ffordd o Fyw Iach, Iechyd a Lles Meddwl, Cyflyrau Iechyd Cronig, Pobl Agored i Niwed, Byw Annibynnol

Egniol: Tai, Amgylchedd Adeiledig a Naturiol, Mynediad a Thrafnidiaeth

Mae symleiddio partneriaethau wedi arwain at un bartneriaeth gynhwysfawr, Fframwaith Partneriaeth Strategol Blaenau Gwent. Cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Blaenau Gwent ar y trefniadau newydd ym mis Mai 2012 a helpu i sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff gwirfoddol a chymunedol yn cydweithio i fynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig i wella canlyniadau ar gyfer pobl Blaenau Gwent.

Roedd y fframwaith yn **disodli'r** Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (yr oedd y Fforwm 50+ yn adrodd iddi); Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Blaenau Gwent a'r Bartneriaeth Adfywio.

Mae gan y fframwaith ddull weithredu cymuned gyfan, felly ni fwriedir iddi ganolbwyntio ar unrhyw gymdogaeth, cymuned neu grŵp o bobl neilltuol. Mae hyn yn cymryd dull cwrs bywyd llawn a rheoli cymdogaeth i gynorthwyo gyda chynllunio a chyflenwi ar y cyd ar bob un o'r themâu allweddol.


Ar ôl dweud hynny, bydd angen i'r cynlluniau gweithredu ar gyfer pob thema fod â champau gweithredu penodol a *fydd* o fantais neu fydd â ffocws ar gymdogaethau, cymuned neu grwpiau o bobl neilltuol, sy'n galluogi'r bartneriaeth i roi ystyriaeth i gynllun cyflenwi lleol y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.

Caiff gweithrediad lleol cynllun cyflenwi'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ym Mlaenau Gwent ei integreiddio i'r trefniant ar gyfer Cynllun Integredig Sengl Blaenau Gwent. Bydd y Rhwydwaith Blaenau Gwent 50+ yn parhau i ddatblygu, monitro ac adolygu'r cynllun cyflenwi gydag aliniad drwy Fframwaith Partneriaeth Strategol Blaenau Gwent i bob grŵp thema presennol drwy'r Bartneriaeth Pobl a Lleoedd.

Rôl Rhwydwaith Blaenau Gwent 50+

Caiff rôl y Rhwydwaith 50+ ei ddatblygu i hwyluso'r trefniadau a amlinellir islaw. Bydd y Rhwydwaith yn cwrdd unwaith y chwarter gyda ffocws ar:

- Monitro ac adolygu perfformiad yn erbyn camau gweithredu penodol o fewn y cynllun cyflenwi blynyddol;



- Adrodd eithriadau lle mae pethau'n gweithio'n dda a hefyd lle nad yw pethau'n gweithio'n dda (gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau a newid);
- Dynodi camau gweithredu, cyfleoedd a phartneriaid newydd i wella'r cynllun cyflenwi;
- Annog ymgysylltiad pobl hŷn, yn cynnwys cryfhau Grŵp Cyfeirio 50+ sy'n gysylltiedig â'r Rhwydwaith.

Bydd y Rhwydwaith yn cwrdd yn chwarterol i fonitro ac adolygu perfformiad ar y camau gweithredu a ddynodwyd yn y cynllun cyflenwi hwn a bydd angen iddynt adrodd yn chwarterol drwy Fframwaith Partneriaeth Strategol Blaenau Gwent i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Yn yr un modd, anfonir gwybodaeth bob chwarter at Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddangos cynnydd, yr hyn a gyflawnwyd ac effaith y strategaeth. Bydd y Rhwydwaith yn edrych bob chwe mis i weithredu i annog cyfranogiad egniol pobl hŷn o Flaenau Gwent.



Trefniadau ar gyfer y Rhwydwaith 50+ ar gyfer 2015/16

Y trefniadau ar gyfer Rhwydwaith Blaenau Gwent 50+ ar gyfer 2015/16 yw:

Haf 2015: Cyfarfod Rhwydwaith 50+ - ffocws ar sefydliadau partner yn adolygu perfformiad o gymharu â'r cynllun cyflenwi.

Hydref 2015: Ennyn diddordeb mewn digwyddiadau i bobl hŷn - gyda ffocws ar annog ymgysylltu gyda phobl hŷn sy'n byw ym Mlaenau Gwent, wedi alinio gyda Diwrnod Cenedlaethol Pobl Hŷn. Bydd sefydliadau partner yn adolygu perfformiad o gymharu â'r cynllun cyflenwi.

Gaeaf 2015/16: Cyfarfod Rhwydwaith 50+ - ffocws ar sefydliadau partner yn adolygu perfformiad o gymharu â'r cynllun cyflenwi.

Gwanwyn 2016: Ennyn diddordeb mewn digwyddiadau pobl hŷn - gyda ffocws ar annog ymgysylltu gyda phobl hŷn yn byw ym Mlaenau Gwent, wedi alinio gyda Digwyddiad Rhwydwaith 50+ Gwent Gyfan (a gynhelir gan Flaenau Gwent). Bydd sefydliadau partner yn adolygu perfformiad o gymharu â'r cynllun cyflenwi.

Cynllun Cyflenwi 2015/16

Datblygwyd y cynllun cyflenwi mewn partneriaeth drwy Rwydwaith 50+ Blaenau Gwent, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allweddol yn gweithredu yn ardal Blaenau Gwent a hefyd bobl hŷn sy'n byw ym Mlaenau Gwent, drwy'r Grŵp Cyfeirio 50+ sy'n cefnogi'r Rhwydwaith.

Rhannwyd y cynllun cyflenwi yn 5 maes thema a gyflwynir yng Nghynllun Integredig Sengl Blaenau Gwent 2013/17, sef:

- Cymunedau llewyrchus
- Cymunedau sy'n dysgu
- Cymunedau iach
- Cymunedau teg a diogel, a
- Cymunedau egniol

Mae hefyd adran ychwanegol yn y cynllun cyflenwi yn amlygu camau gweithredu yn gysylltiedig gydag Ymgysylltu a Gwybodaeth (wedi alinio gyda'r cynlluniau Ymgysylltu a Gwybodaeth a amlinellwyd yn y Cynllun Integredig Sengl).

Cymunedau Llewyrchus ar gyfer Pobl Hŷn

Prif flaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl sy'n berthnasol i bobl hŷn yw::

- Gwella cyfleoedd cyflogaeth, a
- Cefnogi pobl sy'n wynebu pwysau ariannol.



Gwella cyfleoedd cyflogaeth

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
T01	Cefnogi gweithwyr lleol i wella eu sgiliau a'u hyder fel y gallant gyrraedd eu potensial ennill llawn (cyrsiâu ar gyfer oedolion 16+ oed). Sgiliau Gwaith ar gyfer Oedolion	Ymddiriedolaeth Hamdden Life, Cymunedau yn Gyntaf (Gogledd a De Ebwy Fach, Ebwy Fawr a Thredegar), Tai Calon, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
T02	Cefnogi llwybr tuag at raglen cyflogaeth ar gyfer pobl 50+ oed. Routes 2 Life	Groundwork Wales	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
T03	Cyflenwi rhaglen wirfoddoli sy'n hygyrch i bobl 50+ oed	GAVO	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (4) (7) (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
T04	Cyflenwi amrywiaeth o glybiau swyddi sy'n rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i bobl sy'n edrych am gyflogaeth hygyrch i bobl 50+ oed	Cymunedau yn Gyntaf, Ymddiriedolaeth Hamdden Life, Bridges into Work, Llyfrgelloedd	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)

Cefnogi pobl sy'n wynebu pwysau ariannol

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
T05	Gwella mynediad i wasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau a chynyddu hawlio budd-daliadau perthnasol drwy ymgyrchoedd amlgyfrwng a chyflwyno prosiectau partneriaeth megis Credyd Cynhwysol	Gwasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau; Tîm Cyllid Gwasanaethau Cymdeithasol CBSBG; Cyngor ar Bopeth; Cymdeithas Alzheimer; Gofal a Thrwsio; Cymdeithas Strôc; Tai Calon, GAVO, Tîm Budd-daliadau CBSBG, Cymunedau yn Gyntaf (Gogledd a De Ebwy Fach, Ebwy Fawr a Thredegar)	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (3) (10) (12)
T06	Cyflwyno Prosiect Gofalwyr i wella mynediad i wasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynyddu hawlio budd-daliadau perthnasol y mae gan bobl hawl iddynt	Adran Gwaith a Phensiynau ac Age Cymru Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (3) (10) (12)
T07	Cyflwyno rhaglen ac ymgyrch Blaenau Gwent Ar-lein i gynyddu nifer atgyfeiriadau pobl 50+ oed	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (3) (4) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)

Pa wybodaeth sy'n cefnogi'r thema yma?

Cynilion pobl hŷn ym Mhrydain - dywed tri chwarter nad oes ganddynt unrhyw gynilion, dim ond un mewn pump sydd â chynilion o hyd at £20,000 a dim ond 2% sydd â chynilion o £20,000 neu fwy.



Allgau ariannol - mae pobl hŷn ym Mhrydain ymysg y rhai sydd â'r risg uchaf o allgau ariannol ac yn lleiaf tebygol i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.



Incwm

blynyddol mae incwm blynyddol dau draean o aelwydydd ym Mhrydain a arweinir gan berson o oed pensiwn yn llai na £15,600



Cymunedau Llewyrchus ar gyfer Pobl Hŷn



Credyd pensiwn - amcangyfrifir nad yw traean pobl sydd â hawl i Gredyd Pensiwn yn ei hawlio



Diweithdra hirdymor - Bu tua 45% o bobl ddiwaith 50-64 oed yn ddiwaith am flwyddyn neu fwy o gymharu â 30% o rai 18-24 oed a 38% o rai 25-49 oed



Gwariant cyhoeddus a phreifat mae'n debyg o gynyddu'n sylweddol dros y ddau ddegawd nesaf ar wasanaethau sy'n neilltuol o bwysig i bobl hŷn e.e. gofal iechyd, pensiynau a gofal cymdeithasol

Mae **gweithwyr** 50-65 oed yn ffurfio chwarter o weithlu Prydain



Cymunedau sy'n Dysgu ar gyfer Pobl Hŷn

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl sy'n berthnasol i bobl hŷn yw:

- Gwella sgiliau sylfaenol i oedolion



Gwella sgiliau sylfaenol i oedolion

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
L01	Cefnogi pobl leol i ennill y sgiliau a'r hyder i'w helpu i symud tuag at gyflogaeth (cyrсияu ar gyfer oedolion 16+ oed). Rhaglen Pontydd i Waith.	Ymddiriedolaeth Hamdden Life	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (3) (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
L02	Cyflwyno cyrsiau Saesneg, Mathemateg a Thechnoleg Gwybodaeth hyd at lefel TGAU (cyrсияu ar gyfer oedolion 16+ oed) - Rhaglen Sgiliau Hanfodol ar gyfer Bywyd	Ymddiriedolaeth Hamdden Life	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (3) (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
L03	Cefnogi gweithwyr lleol i wella eu sgiliau a'u hyder fel y gallant gyrraedd eu potensial ennill llawn (cyrсияu ar gyfer oedolion 16+ oed). Sgiliau Gwaith i Oedolion	Ymddiriedolaeth Hamdden Life	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (3) (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
L04	Datblygu cymunedol a chyrсияu dysgu ar-lein	WEA Cymru	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (3) (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)
L05	Mapio gweithgareddau a rhaglenni cyfranogiad cymdeithasol ar draws Blaenau Gwent	Grŵp Rhanddeiliaid 50+	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (3) (13); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)

Pa wybodaeth sy'n cefnogi'r thema yma?



Gwasanaethau Ar-lein -

dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau nad yw pobl nad ydynt wedi arfer cymaint â chyfrifiaduron â phobl o garfannau oedran eraill yn dioddef o ddarpariaeth gwasanaeth annigonol



Lechyd a buddion cymdeithasol

–Mae tystiolaeth fod gan hyfforddiant ac addysg fanteision iechyd a chymdeithasol sylweddol ar gyfer pobl hŷn oherwydd eu bod yn helpu i ennyn diddordeb pobl ac wedi cysylltu gyda chymdeithas yn ehangach

Dysgu Gydol Oes -mae consensws eang ar draws holl aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd bod cysyniad dysgu gydol oes yn sicrhau integreiddiad cymdeithasol a symudedd a hefyd well dealltwriaeth ymysg cenedlaethau

(Getting Older People Involved in Learning, Prifysgol Caerlŷr)



Cymunedau sy'n Dysgu ar gyfer Pobl Hŷn



Mwy o lesiant - mae tystiolaeth fod dysgu anffurfiol yn gysylltiedig â mwy o lesiant mewn oedolion hŷn

(Learning and Wellbeing Trajectories Among Older Adults in England)



Sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pobl hŷn

- Gallai'r Llywodraeth ystyried cefnogi cynlluniau i ddarparu addysg a hyfforddiant sgiliau ar gyfer pobl hŷn, ar gyfer rhai sy'n dymuno gweithio pan fyddant yn hŷn ac am arweiniad mewn byd technolegol sy'n newid.

Cymunedau Iach ar Gyfer Pobl Hŷn

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl sy'n berthnasol i bobl hŷn yw:

1. Hyrwyddo ymddygiad a ffyrdd o fyw iach.
2. Gwella iechyd a lles meddwl.
3. Gwella canfod cynnar a rheoli cyflyrau cronig.
4. Amddiffyn a diogelu pobl agored i niwed.
5. Galluogi pobl i fyw'n annibynnol.



Hyrwyddo ymddygiad a ffyrdd iach o fyw

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
H01	Cyflwyno cynllun atgyfeirio ymarfer ysgafn	Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (5); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
H02	Cyflwyno cynllun Pum Ffordd i Lesiant	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (5); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
H03	Cyflwyno cynllun Hyrwyddwr Iechyd drwy'r Rhwydwaith 50+	Blaenau Gwent Council	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (5); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)

Gwella iechyd a lles meddwl

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
H04	Cyflwyno rhaglen Cymunedau Ystyriol o ran Dementia - yn defnyddio Rhwydwaith 50+ a Fframwaith Partneriaeth Strategol (Tredegar) a ddewiswyd fel ardal beilot	Cyngor Blaenau Gwent, Rhwydwaith 50+, Cymdeithas Alzheimer	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (1) (6) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (3)

Gwella canfod cynnar a rheoli cyflyrau cronig

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
H05	Cyflwyno Rhaglen Addysg ar gyfer Cleifion – cyrsiau iechyd hunanreolaeth a llesiant ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd neu ar gyfer rhai sy'n gofalu am rywun gyda chyflwr iechyd.	GAVO	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (5)
H06	Cyflwyno rhaglen Byw'n Dda, Byw'n Hirach - rhaglen sgrinio gwiriad iechyd gyda'r nod o ostwng marwoldeb cyn amserol o afiechyd cardiofasgwlaidd a chanser.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (5); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)

Amddiffyn a diogelu pobl agored i niwed

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
H07	Cyflwyno hyfforddiant diogelu pobl agored i niwed	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru(1); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
H08	Dynodi beth yw'r pwyntiau 'sbardun' ar, pwy yw'r bobl arweiniol 50+ oed i'r anallu/gallu unigolion i fedru gofalu drostynt eu hunain a chyflwyno gofal lefel isel	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (5)
H09	Adolygu gwasanaethau a ddarperir i gefnogi pobl 50+ oed sy'n fregus i benderfynu p'un ai annibyniaeth ac nid dibyniaeth a gaiff ei hyrwyddo a chynnig ar gyfer gwasanaethau amgen	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru(5)

Galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
H10	Cyflwyno prosiect Cysylltwyr Cymunedol a sicrhau cefnogaeth ehangach y gymuned leol	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (3) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1) (5)
H11	Cyflwyno prosiect Mentora a Chyfeillachu Croeso Cyfeillion	RSVP Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (3) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1) (5)
H12	Gwella mynediad i wybodaeth (er enghraifft gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl 50+ oed) drwy hyrwyddo sianeli digidol ar-lein	Partneriaid Rhwydwaith 50+ Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (3); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
H13	Cyflwyno prosiect Ail-alluogi Cymunedol	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (9); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (5)
H14	Cyflwyno ymgyrch 'Dewis yn Dda'	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (3) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1) (5)
H15	Cyflwyno Clwb Bywyd ar ôl Strôc y Cymoedd	Bywyd ar ôl Strôc y Cymoedd	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (3) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1) (5)
H16	Cyflwyno Rhaglen Llesgedd Gwent	Cyngor Blaenau Gwent - Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (9); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (5)
H17	Cyflwyno Prosiect Cyfeillachu ac Eiriolaeth	Cymdeithas Alzheimer	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1) (3) (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1) (5)
H18	Amrywiaeth o wasanaethau cymorth cysylltiedig â thai (seiliedig ar lety a chefnogaeth fel y bo angen) ar gael i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain neu yn y gymuned	Cyngor Blaenau Gwent - Cefnogi Pobl Leol	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9)

Pa wybodaeth sy'n cefnogi'r thema yma?


Gofal iechyd

- amcangyfrifir y bydd dau-draean dynion a 84% menywod 65 oed ar hyn o bryd angen gofal cymdeithasol yn ystod eu bywyd.



Diet wael

Mae tystiolaeth fod cysylltiad rhwng diet wael â phobl yn byw ar ben eu hunain. Yng Nghymru, mae 43% o bobl 75 oed a throsodd yn byw ar ben eu hunain - dau-draean menywod a thraean dynion.



Mae aros yn **gorfforol egniol** yn diogelu iechyd, ac mae iechyd corfforol da yn gwneud cyfraniad pwysig i lesiant cyffredinol.



Mae cysylltiad rhwng **unigrwydd neu arwahanrwydd cymdeithasol** â phroblemau iechyd a marwolaeth gynnar.

Mae'r risgiau yn sylweddol, yr un fath ag ysmegu a dwywaith hynny ar gyfer gordewdra.



Mae **arwahanrwydd cymdeithasol** yn achosi iselder ac yn gwneud pobl hŷn yn fwy agored i gamdriniaeth.



Mae **gweithgaredd cymdeithasol neu hamdden** gan oedolion hŷn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n dda.

Mae cysylltiad rhwng perthynas gymdeithasol dda ag effeithiau iechyd cadarnhaol i'r unigolyn.

Rhagwelir cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal **cymdeithasol** hyd at 2030 ar gyfer pobl yn Lloegr a Chymru yn cynnwys:

- diabetes, cynnydd o dros 45%
- arthritis, afiechyd coronog y galon, strôc: cynnydd o 50% yr un
- dementia, cynnydd o dros 80%
- angen cymedrol neu ddifrifol am ofal cymdeithasol: cvynnydd o 90% yr un.



Cymunedau lach ar gyfer Pobl Hŷn



Mae'r **GIG** yn wynebu cynnydd mewn galw a chost yn dilyn oedran a bydd yn rhaid iddo drawsnewid i ddelio gyda hyn.



Mae angen i'r system **iechyd a gofal cymdeithasol** weithio'n dda 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos



Cymunedau Teg a Diogel ar gyfer Pobl Hŷn

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl sy'n berthnasol i bobl hŷn yw:

1. Mynd i'r afael â throseddu
2. Herio ymddygiad gwrthgymdeithasol
3. Hyrwyddo cymunedau cydlynol, sy'n cymryd rhan



Mynd i'r afael â throseddu

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
F01	Cyflwyno ymgyrchoedd yn erbyn galwyr ffug	Cyngor Blaenau Gwent/ Heddlu Gwent / Gwasanaethau Gofal Cartref	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (6); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F02	Cyflwyno parthau galw oer ar draws Blaenau Gwent	Cyngor Blaenau Gwent, Heddlu Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (6); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F03	Gwasanaethau Cymorth Cysylltiedig â Thai i alluogi pobl hŷn i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain neu yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys mynediad i ddarpariaeth cymorth fel y bo modd a lloches ar gyfer Cam-drin Domestig, cefnogaeth fel y bo angen ar Gamddefnyddio Sylweddau a darpariaethau Tai â Chymorth	Cyngor Blaenau Gwent, Cefnogi Pobl	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (6); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F04	Cyflwyno gwaith ymyriad a thargeddu gweithgareddau caledu i ddiogelu'r rhai y dynodwyd eu bod mewn risg	Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (6); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)

Herio ymddygiad gwrthgymdeithasol

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
F05	Cefnogi datblygiad parhaus ac arferion gwaith y Grŵp Rheoli Achos Pobl Agored i Niwed	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F06	Annog pobl hŷn i ymuno neu gymryd rhan mewn Paneli Atal Troseddu, Gofal Cymdogaeth ac Owl	Heddlu Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (7); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)

Hyrwyddo cymunedau cydlynol, sy'n cymryd rhan

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
F07	Datblygu a chyflwyno rhaglen Cymunedau Ystyriol o Ran Oedran ar draws Blaenau Gwent	Rhwydwaith 50+ Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (2); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F08	Cynyddu aelodaeth a lefelau cyfranogiad Grŵp Cyfeirio 50+ Blaenau Gwent yn cefnogi'r Rhwydwaith	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (2); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F09	Mapio grwpiau lle gall pobl hŷn sy'n mynychu ymgysylltu'n fwy effeithlon	Rhwydwaith 50+ Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (2); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)
F10	Hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth a chefnogaeth (er enghraifft, cyfeiriadur) ar gael i bobl hŷn drwy sianeli hygyrch, megis gwefan CBSBG	Rhwydwaith 50+ Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (3)

Pa wybodaeth sy'n cefnogi'r thema yma?

Cynllunio trefol - Bydd

angen i wasanaethau fel cynllunio trefol addasu i boblogaeth hŷn a bydd ganddynt rôl bwysig wrth atal arwahanrwydd cymdeithasol dinasyddion hŷn



Masnachwyr

Twyllodrus – Mae pobl hŷn yn dweud eu bod yn pryderu am sgamiau a masnachwyr twyllodrus.



Teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus

Yn gyffredinol mae pobl hŷn yn teimlo'n llai diogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar unrhyw amser nag oedolion iau, yn arbennig yn y nos.



Cymunedau Teg a Diogel ar gyfer Pobl Hŷn



Teimlo'n ddiogel

adref – Fel arfer mae pobl hŷn (65+ oed) yn dweud eu bod yn teimlo'n llai diogel yn eu cartrefi ar unrhyw adeg nag oedolion ifanc, yn neilltuol yn y nos.



Teimlo'n ddiogel wrth fynd o gwmpas

- Yn gyffredinol mae pobl hŷn yn dweud eu bod yn teimlo'n llai diogel yn eu hardal leol, canol trefi/dinasoedd ar unrhyw amser nag oedolion iau, yn neilltuol yn y nos

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

older people report that they are concerned about anti-social behaviour



Cymunedau Egniol ar gyfer Pobl Hŷn

Y prif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl sy'n berthnasol i bobl hŷn yw:

1. Helpu pobl i fynd o gwmpas
2. Gwella ansawdd a mathau o gartrefi



Helpu pobl i fynd o gwmpas

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
V01	Datblygu proffiliau demograffig o ddefnydd trafniadaeth gyhoeddus (bysus er enghraifft) a defnyddio gwybodaeth i ddylanwadu ar gynllunio gwasanaeth	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (8)
V02	Cyflwyno gwasanaeth Ffonio-am-Daith	GAVO	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (8)

Gwella ansawdd a mathau o gartrefi

Dynodwyd y camau gweithredu dilynol ar gyfer y flaenoriaeth yma (drafft ymgynghori):

Rhif	Beth fyddwn yn ei wneud?	Pwy fydd yn gwneud hynny?	Cysylltiadau â Meysydd Polisi Cenedlaethol
V03	Cyflwyno Prosiect Gwirio Ynni Cartref ar gyfer pobl 65+ oed	Age Cymru Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (11)
V04	Amrywiaeth o wasanaethau cymorth cysylltiedig â thai (seiliedig ar lety a chymorth fel y bo angen) ar gael i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain neu yn y gymuned	Cyngor Blaenau Gwent - Cefnogi Pobl	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9)
V05	Datblygu proffiliau estynedig cartrefi gofal ar ganllaw gofal da "Meddyliwch Amdanaf"	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9)
V06	Darparu dyfeisiau diogelwch cartref a thŷn ar gyfer pobl hŷn	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9) (1)
V07	Darparu dewisiadau tai drwy wasanaethau gweithwyr achos, technegol a thasgmon i gefnogi byw annibynnol a hwyluso rhyddhau o'r ysbyty ac atal derbyniadau (er enghraifft, gyflwyno Rhaglen Addasiadau Brys)	Gofal a Thrwsio; Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan; Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9); Heneiddio'n Dda yng Nghymru (2)
V08	Cyflwyno rhaglen Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i addasu cartrefi i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain	Cyngor Blaenau Gwent	Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9)

Pa wybodaeth sy'n cefnogi'r thema yma?

Tlodi tanwydd-

Amcangyfrifir fod tua 140,000 o aelwydydd hŷn yng Nghymru mewn tlodi tanwydd.



Caiff amodau tai gwaeth eu

cysylltu'n annibynnol gyda dirywiad mewn iechyd. Mae addasu cartrefi'n gostwng anabledd a risg damweiniau.



Palmentydd

wedi torri - Mae

bron i un ym mhob deg o bobl dros 65 oed yn baglu neu syrthio oherwydd palmentydd anwastad neu wedi torri

Mae **cartrefi oer** yn cyfrannu at tua deg y cant o farwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf ymhlith pobl hŷn ag a bob blwyddyn.



Cymunedau Egnïol i Bobl Hŷn



Mae angen trin **anghenion tai** y boblogaeth hŷn a dylid rhoi cymaint o flaenoriaeth i hyrwyddo marchnad ddigonol a thai cymdiethasol ar gyfer pobl hŷn ag a roddir i gartrefi i bobl iau.

Cyfleusterau lleol - Mae pobl hŷn yn cael mwy o anhawster na grwpiau oedran iau yn cyrchu cyfleusterau lleol. Mae'r gwahaniaethau mwyaf yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus a mynediad i gyfleusterau diwylliannol neu hamdden.



Geirfa - Cysylltiadau gyda Pholisi Cenedlaethol

Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru 2013-2023	Nod
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (1)	Cyfranogiad cymdeithasol - pobl hŷn yn mwynhau gwell ansawdd bywyd, â bywyd cymdeithasol egniol (os dymunant) a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (2)	Amrywiaeth - peidio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn oherwydd eu hoedran a phobl hŷn heb ddioddef gwahaniaethu lluosog
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (3)	Gwybodaeth a chyingor - pobl hŷn â mynediad i wybodaeth a chyingor am wasanaethau a chyfleoedd
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (4)	Dysgu a gweithgareddau - pobl hŷn yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn dysgu neu weithgareddau eraill
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (5)	Heneiddio iach - pobl hŷn yn mwynhau iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol da gyda'r nod o fedru byw'n annibynnol yn hirach, gyda gwell ansawdd bywyd ac yn parhau i weithio a chymryd rhan yn eu cymunedau
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (6)	Mannau a rennir - pobl hŷn yn canfod lleoedd cyhoeddus yn groesawgar, diogel a hygyrch
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (7)	Byw yn y gymuned - pobl hŷn yn gallu cymryd rhan a chyfrannu yn eu cymunedau a chael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (8)	Trafnidiaeth - pobl hŷn â mynediad i gludiant fforddiadwy ac addas sy'n eu cynorthwyo i chwarae rhan lawn mewn bywyd teuluol, cymdeithasol a chymunedol
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (9)	Tai - pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi a chymunedau addas ar gyfer eu hanghenion
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (10)	Pensiynau ac incwm arall - pobl hŷn â safon ddigonol o incwm ac yn derbyn yr holl fuddion ariannol y mae ganddynt hawl iddynt
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (11)	Effeithiolrwydd ynni - pobl hŷn yn byw mewn cartrefi effeithiol o ran ynni ac yn gallu fforddio gwresogi eu cartref i'r tymheredd gofynnol i ddiogelu iechyd
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (12)	Cynhwysiant ariannol - pobl hŷn yn gallu cael mynediad i gyngor a gwasanaethau ariannol priodol, ac heb fod â gormod o ddyledion
Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (13)	Cyflogaeth - pobl hŷn sydd eisiau gweithio yn gallu gwneud hynny ac yn gallu cael mynediad i help gydag ailsgilio a hyfforddiant

Comisiynydd Pobl Hŷn - Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Comisiynydd Pobl Hŷn - Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru	Nod
Heneiddio'n Dda yng Nghymru (1)	Cymunedau ystyriol o ran oedran i wneud Cymru yn genedl o gymunedau ystyriol o ran oedran
Heneiddio'n Dda yng Nghymru (2)	Cefnogi pobl hŷn i ostwng eu risg o syrthio , gostwng nifer y codymau ymysg pobl hŷn yng Nghymru
Heneiddio'n Dda yng Nghymru (3)	Gwneud Cymru yn genedl gefnogol i dementia drwy adeiladu a hyrwyddo cymunedau sy'n cefnogi dementia
Heneiddio'n Dda yng Nghymru (4)	Sicrhau y caiff profiad pobl hŷn yng Nghymru ei wella i'r eithaf drwy barhau i ddysgu a chyflogaeth
Heneiddio'n Dda yng Nghymru (5)	Gostwng lefelau unigrwydd ac arwahanrwydd a'u heffaith negyddol ar iechyd a llesiant a brofir gan bobl hŷn yng Nghymru

Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn - Dolenni Defnyddiol

Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013 - 2023

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/%3Bjsessionid=61052F82052226EC77995A283026C589?lang=en>

Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru

<http://www.ageingwellinwales.com/en/home>

Datganiad Hawliau Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/strategies/rights/?lang=cy>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=en>

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?lang=en>

Cymunedau Ystyriol o ran Oedran

<http://www.who.int/ageing/age-friendly-world/en/>

Deddf Cydraddoldeb 2010

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/impactassessments/eqact/?lang=en>